



**PWYLLGOR CYDWEITHREDOL RHANBARTHOL BRO MORGANNWG A
CHAERDYDD
2 Ionawr 2013**

Yn bresennol:

- | | |
|-------------------------------|-----------------------------------|
| Y Cyngh. Bronwen Brooks – CBM | Sian Griffiths – Iechyd Cyhoeddus |
| Y Cyngh. Stuart Egan - VGC | Helen Jones - CCC |
| Y Cyngh. Lynda Thorne – CDC | Simon Prothero – LIC |
| Mike Friel – CDC | Mike Ingram – CBM |
| Michelle Brewer – CDC | Andrew Page – CBM (Cofnodion) |
| Andrew Evans - CDC | Mike Murphy – CDC |
| Pam Toms – CBM | Joy Garfitt – CDC / CBM |
| Mark Sheridan – CCC | |

Ymddiheuriadau:

- Peter Greenhill – Profiannaeth
 Frances Beecher – Cymorth
 Sian Harrop-Griffiths – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro

	Gweithredu
<p>Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau Roedd y Cynghorydd Bronwen Brooks (Cadeirydd) wedi croesawu pawb i’r cyfarfod.</p> <p>Am fod pobl newydd yn bresennol, aeth pawb ati i’w cyflwyno eu hunain a’r sefydliadau yr oeddynt yn eu cynrychioli, a chofnodwyd yr ymddiheuriadau a oedd wedi dod i law.</p>	
<p>Cofnodion y cyfarfod diwethaf Darllenwyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.</p>	
<p>Materion yn codi Ni phenodwyd Cyd-drefnydd Datblygiad Rhanbarthol am mai un ymgeisydd yn unig a ddaeth i’r cyfweiliad a’i fod yn anaddas.</p> <p>Gwnaethpwyd cais i Lywodraeth Cymru am nawdd ychwanegol er mwyn i ni gael codi graddfa gyflog y swydd, a denu ymgeiswyr</p>	

<p>mwy addas. Rydym yn aros am ymateb cyn ail-hysbysebu'r swydd.</p>	
<p>Ffurflenni Gwrthdaro Buddiannau Atgoffodd y Cyngh. Brooks aelodau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol o'r angen am ddatgelu unrhyw wrthdaro buddiannau ar ddechrau pob cyfarfod o'r pwyllgor, a bod ffurflenni safonol ar gael i'w llenwi.</p> <p>Dywedodd Ceri Meloy (CM) i'w sefydliad (Dimensions) gael ei enwi fel darparwr cymorth presennol yn newyddion diweddaraf Caerdydd am y cynnig ynglŷn â chynllun byw â chymorth i bobl ag anabledd dysgu. Gofynnodd a fo angen llenwi ffurflen datgan buddiannau, gan hynny. Cytunodd pawb ar y pwyllgor nad oedd angen llenwi ffurflen am nad oedd unrhyw wybodaeth gyfrinachol yn cael ei darparu, ond y dylai'r mater ymddangos yn y cofnodion, serch hynny.</p>	<p>PAWB</p>
<p>Achredu Dim. Mae'r drefn newydd hon yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd a bydd yn rhaid ymateb i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Ionawr 2013.</p> <p>Sefyllfa Ariannol yng nghyd-destun y Gyllideb Cafwyd adroddiad yng nghyfarfod mis Rhagfyr.</p> <p>Mapio Anghenion Rhanbarthol Yn aros nes i Gyd-drefnydd Datblygiad Rhanbarthol gael ei benodi.</p> <p>Canlyniadau a Rheoli Perfformiad (gan gynnwys arolygon gwasanaethau) Dim.</p> <p>Cynigion ar gyfer Adlunio Strategol Dim.</p> <p>Comisiynu a Chaffael Ail-dendro Contractau Anabledd Dysgu(Caerdydd) Dosbarthwyd papur cyfarwyddo (a atodwyd yma), ac aeth Joy Garfitt (JG), Swyddog Arweiniol Anabledd Dysgu newydd Caerdydd a'r Fro, ati i egluro'r broses gaffael a oedd wedi'i chynnig.</p> <p>Penderfynwyd trefnu contractau newydd ar y cyd ar gyfer gofal a chymorth sy'n gysylltiedig â thai o Chwefror/Fawrth 2014 ymlaen yn sgîl yr ail-dendro. £51 miliwn yw cost y gwasanaethau ar hyn o</p>	

<p>bryd ac y mae'r contractau presennol ar gael ers 2006/2007.</p> <p>Dywedodd JG wrth y rhai presennol y byddai Cyngor Caerdydd yn asesu ansawdd a chost y gwasanaethau er mwyn cael sicrhau'r gwerth gorau wrth gynnig y contractau, ond ei fod yn dal i bwysu a mesur yr elfennau hyn. Bydd y pedwar darparwr presennol yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau nes y bydd y contractau newydd wedi'u cynnig. Cytunwyd y bydd Cyngor Caerdydd yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ar yr offer gwerthuso cyn gynted ag y byddant wedi'u gosod.</p> <p>Adolygwyd gofynion y gwasanaethau presennol eisoes, a bu rhywfaint o ymgynghori, a chan fod rhagor i fod, trefnwyd cyfarfodydd ychwanegol â'r darparwyr. Byddwn hefyd yn sicrhau bod defnyddwyr yn cael y newyddion diweddaraf am yr ymarfer ail-dendro. Byddai'r staff presennol yn cael eu gwarchod o dan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) petai darparwyr newydd, ac y mae hyn yn bwysig iawn o safbwynt sicrhau cysondeb i ddefnyddwyr. Bydd Cyngor Caerdydd hefyd yn helpu darparwyr i sicrhau bod staff yn derbyn y cyflog byw a gafodd ei fabwysiadu gan y Cabinet.</p> <p>Fe'n sicrhawyd bod y gwasanaethau presennol yn perfformio'n dda, a'u bod wedi creu argraff arbennig am fod yn ddeinamig, yn enwedig yn eu hymwneud â phobl iau sy'n cael cymorth i symud i fyny ac i lawr gwahanol lefelau o gymorth a gwasanaeth.</p> <p>Dywedodd JG, er na soniwyd wrth y darparwyr hyd yma am yr amserlenni ar gyfer yr ymarfer sydd wedi'u hegluro yn y papur cyfarwyddo, nad ydynt yn gyfrinachol.</p> <p><u>Cytunodd aelodau'r pwyllgor i dderbyn y cynnig ail-dendro.</u></p>	<p>MB/JG</p>
<p>Cydweithrediad Defnyddwyr</p> <p>Am nad yw'r Cyd-drefnydd Datblygu Rhanbarthol wedi'i benodi eto, cytunwyd y byddai PT ac MB yn llunio ffurflen ar gyfer darparwyr cymorth yn y cyfamser, er mwyn dechrau casglu gwybodaeth am ddulliau ymgynghori yn y rhanbarth.</p> <p>Ar ôl dadansoddi'r wybodaeth, bydd y pwyllgor yn penderfynu ar Fframwaith Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau.</p>	<p>PT/MB</p>
<p>Cynlluniau Comisiynu Lleol a Rhanbarthol</p> <p>Dosbarthwyd y ddau gynllun hwn a Chynllun Gwario Lleol 2013/14 y Fro cyn y cyfarfod hwn. Cafodd Cynllun Gwario Lleol Caerdydd</p>	

a Chynllun Gwario Rhanbarthol 2013/14 eu hepgor ar ddamwain (amgaewyd y rhain).

Bro Morgannwg

Cyflwynwyd Cynllun Comisiynu Lleol Bro Morgannwg o safbwynt:- ei gysylltiadau â'r cynllun integredig sengl a strategaethau eraill; y broses o gasglu gwybodaeth; bylchau mewn gwasanaethau a'r blaenoriaethau a gafodd eu cytuno gan y Grŵp Cynllunio Lleol, a'u cymeradwyo gan gabinet y cyngor wedyn. Bu ymgynghori hefyd ar ddrafft terfynol y Cynllun Comisiynu Lleol.

Dyma'r ddwy flaenoriaeth a gynigiwyd:

1. Hostel chwe uned ar gyfer pobl o dan 35 oed sy'n derbyn cleientiaid wrth y drws. Nawdd refeniw ar gyfer comisiynu cymorth yn unig fydd ei angen am y bydd y lloches i fenywod sydd yno ar hyn o bryd yn wag ar ôl haf 2013 a bydd modd i'r gymdeithas dai addasu'r adeilad heb gael rhagor o gyfalaf.
2. Mae Cynllun Gofal Ychwanegol 42 uned ar y safle a fydd yn agor ym Mai 2014. Mae angen nawdd refeniw er mwyn comisiynu 'cymorth sy'n gysylltiedig â thai'. Cafwyd nawdd cyfalaf yn y gorffennol drwy raglen Grantiau Tai Cymdeithasol.

Caerdydd

Mae Cynllun Comisiynu Lleol Caerdydd yn egluro'r gostyngiad o 4% yn y gyllideb a gynigiwyd ar gyfer 2013/2014 a'r gostyngiad o 5% a gynigiwyd ar gyfer y tair blynedd ddilynol.

Mae'r cynllun yn egluro sut y bwriedir rheoli'r gostyngiad o 4% yn ystod y flwyddyn gyntaf, ac yn cadarnhau y bydd strategaeth yn cael ei dilyn wrth gwogi ar y gyllideb yn ystod y tair blynedd ddilynol. Casglwyd llawer o wybodaeth eisoes oddi wrth ddarparwyr cymorth, trefnwyd cyfres o gyfarfodydd gyda darparwyr ym mis Ionawr a bydd y contractau newydd yn eu lle erbyn diwedd Mawrth 2013 er mwyn adlewyrchu'r gostyngiad o 4% yn y nawdd.

Dywedodd Mark Sheridan (MS) fod Community Housing Cymru (CHC) a Chymorth hefyd wedi bod yn weithgar ers y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor, a bod pob darparwr yng Nghaerdydd wedi cael gwybod am y fethodoleg a gytunwyd ar gyfer y toriadau a'u bod yn disgwyl clywed oddi wrth Gyngor Caerdydd.

Dywedodd MB fod Caerdydd yn hyblyg ac yn gadael i ddarparwyr cymorth benderfynu drostynt eu hunain sut yr hoffent reoli'r

<p>gostyngiad o 4% yn y gyllideb yn ystod 2013. Sicrhau na fydd unrhyw amharu ar y cymorth neu'r gwasanaethau a roddir i ddefnyddwyr yw'r peth pwysicaf.</p> <p>Roedd y Rhestr Gomisiynu Ranbarthol yn adlewyrchu'r wybodaeth uchod a'r blaenoriaethau yng Nghynllun Comisiynu Lleol Bro Morgannwg.</p> <p><u>Cytunodd aelodau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ar y ddau Gynllun Comisiynu Lleol a'r Cynllun Comisiynu Rhanbarthol er mwyn gallu eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau sef 18 Ionawr 2013.</u></p> <p>Dywedodd Simon Prothero (SP) y byddai Llywodraeth Cymru'n cynnal arolwg strategol o'r Cynlluniau Comisiynu Rhanbarthol a Lleol a'r Cynlluniau Gwario ac y byddai'n fodlon cwrdd ag awdurdodau lleol er mwyn cael helpu gydag unrhyw gamau gwella. Pwysleisiodd, serch hynny, ei bod yn rhaid i gontractau Caerdydd fod yn eu lle erbyn 1 Ebrill 2013 beth bynnag a ddigwyddo.</p>	PT
<p>Diweddariad oddi wrth Lywodraeth Cymru Ni chafwyd unrhyw beth ers y cyfarfod diwethaf.</p>	
<p>Unrhyw Faterion Eraill Dywedodd Mike Friel (MF) fod Cyngor Caerdydd wedi rhoi ei gynllun 'un porth i gymorth' ar waith erbyn hyn sy'n newid y drefn weithredu ar gyfer darparwyr yng Nghaerdydd. Cytunodd ddod i'w egluro yn un o gyfarfodydd y pwyllgor yn y dyfodol.</p> <p>Cynhelir y cyfarfod nesaf am 3pm ar ddydd Mercher 6 Chwefror 2013, yn Ystafell F26, Bloc A, Canolfan yr Alpau, Gwenfô (gweler y map amgaeedig).</p> <p><u>SYLWCH FOD Y MAN CYFARFOD WEDI'I NEWID OHERWYDD DIFROD I'R SWYDDFEYDD DINESIG YN DILYN STOROM.</u></p>	